# Talimogene laherparepvec ar gyfer trin melanoma fetastatig na ellir ei dynnu'n llwyr

Medi 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir talimogene laherparepvec (Imlygic) ar gyfer oedolion. Mae'n driniaeth posibl ar gyfer melanoma fetastatig na ellir ei dynnu'n llwyr (Cam IIIB, IIIC neu IVM1a) nad yw wedi ymledu i'r asgwrn, yr ymennydd, yr ysgyfaint nac organau mewnol eraill. Caiff ond ei argymell os nad yw imiwnotherapiau a weinyddir yn systematig yn addas.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych felanoma fetastatig na ellir ei dynnu'n llwyr a bod eich meddyg o'r farn mai talimogene laherparepvec yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai talimogene laherparepvec fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau. Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gael talimogene laherparepvec nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

### Y cyflwr a'r driniaeth

Math o ganser y croen yw melanoma. Golyga "na ellir ei dynnu'n llwyr" na ellir tynnu'r canser yn llwyr drwy lawdriniaeth. Golyga metastatig fod y canser wedi ymledu i rannau eraill o'r corff.

Mae melanoma wedi'i rannu'n pum prif gam, sydd wedi'u rhifo 0, 1, 2, 3 a 4. Mae meddygon yn aml yn ysgrifennu rhif y cam gan ddefnyddio rhifolion Rhufeinig – 0, I, II, III a IV. Rhennir camau I, II ac III yn gamau llai a ddisgrifir drwy ddefnyddio llythrennau'r wyddor, er enghraifft cam IIIB. Mae'r camau yn

seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys pa mor fawr yw'r melanoma a ph'un a yw wedi ymledu ai peidio.

Mae imiwnotherapïau a weinyddir yn systematig yn cynnwys ipilimumab, pembrolizumab a nivolumab.  Ond nid ydynt yn addas i pawb.

Mae talimogene laherparepvec yn gyffur sy'n helpu system imiwnedd y corff i adnabod a dinistrio celloedd melanoma. Caiff ei roi drwy bigiad.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Melanoma UK, 0808 171 2455
- Skcin - Elusen Canser y Croen Karen Clifford, 0115 9819 116
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2140-9